# COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR**

**SUBJECT:** **CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR - DYDD MAWRTH, 27 CHWEFROR 2024 DYDD MAWRTH, 27 CHWEFROR 2024**

**REPORT OF:**

---

PRESENT:

Councillors
C. Smith (Aelod Llywyddol)
S. Behr
D. Bevan
K. Chaplin
M. Cross
G. A. Davies
M. Day
S. Edmunds
J. Gardner
J. Hill
W. Hodgins
J. Holt
G. Humphreys
R. Leadbeater
E. Jones
J. Morgan, J.P.
J. C. Morgan
J. P. Morgan
L. Parsons
D. Rowberry
T. Smith
G. Thomas
J. Thomas
S. Thomas
H. Trollope
J. Wilkins
L. Winnett
D. Woods

WITH: Prif Weithredwr Interim
Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol
Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Addysg
Prif Swyddog Adnoddau
Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid
Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodaethiant a Phartneriaethau
Pennaeth Datblygu Sefydliadol
Rheolwr Gwasanaeth - Cyfrifeg
Rheolwr Gwasanaeth Perfformiad a Democrataidd
Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata
Swyddog y Wasg a Chyhoeddusrwydd

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>**<br><br>Nodwyd na chafwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr P. Baldwin, H. Cunningham, D. Davies a J. Millard. | |
| No. 3 | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| No. 4 | **<u>FFIOEDD A THALIADAU AR DDISGRESIWN 2024/2025</u>**<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef: | |

| | | |
|---|---|---|
| | - Cymeradwyo cofrestr Ffioedd a Thaliadau 2024/2025 ynghyd â'r ffioedd a thaliadau ar ddisgresiwn:<br><br>• cynnydd ffioedd o 5% yn unol â'r dybiaeth ar gyfer chwyddiant o fewn y Strategaeth Ariannol Tymor Canol;<br><br>• y ffioedd eraill a gynigiwyd fel y manylir ym mharagraffau 5.1.4 i 5.1.14 yr adroddiad; a<br><br>• Ffioedd Cynllunio fel yr atodir yn Atodiad 2.<br><br>- Dirprwyo pŵer a chyfrifoldeb i'r Cyfarwyddwr Interim Gwasanaethau Cymdeithasol drwy osod y ffioedd a'r taliadau ar gyfer 2024/2025 yn ymwneud â darparu gofal cymdeithasol allanol fel y manylir ym mharagraff 5.1.6 yr adroddiad.<br><br>- Cymeradwyo'r cynnydd prisiau craidd yn gysylltiedig ag Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin a roddir yn Atodiad 3. | |
| **No. 5** | **CYLLIDEB REFENIW 2024/2025**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>***Achosion Busnes Pontio'r Bwlch***<br><br>Cynigiodd Arweinydd y Cyngor fod y dilynol yn **cael eu cytuno:**<br><br>➢ CS01 – Lwfansau Aelodau – Gostwng y gyllideb ar gyfer Cyfraniadau Blwydd-dal Cyflogwyr - £12,000.<br>➢ CS03 – Adran Adnoddau – Adolygu strwythurau staffio - £157,000.<br>➢ CS04 – Gostyngiadau cyllideb i gynnydd chwyddiant a chyllidebau trawsnewid, gostwng cynnydd chwyddiant i gyflenwadau a gwasanaethau ar draws pob cyllideb portffolio a chynnydd i incwm grant ar gyfer prydau ysgol am ddim cyffredinol - £1,946,000.<br>➢ CS05 – Teledu Cylch Cyfyng – Adolygu'r Gyllideb a gostwng cyllideb staffio a gwasanaethau i adlewyrchu gwariant - £40,173.<br>➢ CS07 – Gwasanaethau Corfforaethol / Masnachol a | |

Chwsmeriaid – Adolygiad o Strwythurau Staffio - £347,100.

- CS09 – Corfforaethol a Pherfformiad – Adolygu a gostwng cyllidebau staffio i adlewyrchu gostwng oriau contract - £22,100.
- CS10 – Byddai angen i bob gwasanaeth sicrhau gostyngiadau cyllideb o 1% yn ychwanegol at gynigion eraill y gyllideb - £1,000,000.
- CS11 – Cynyddu Ffioedd a Thaliadau ar Ddisgresiwn gan o leiaf 5% - £100,000.
- CS12 – Cynyddu treth gyngor gan 4.95% - £361,000.
- CS14 – Lwfansau Aelodau Cyfetholedig – Gostwng y gyllideb i adlewyrchu gwariant - £12,000.

- ECON02 - Economi / Busnes ac Adfywio – uchafu cyllid grant - £17,000.
- ECON03 – Adolygu Darpariaeth Gwasanaeth / Cyflenwi Gwasanaeth Arall / Ysgogi Incwm - £50,000.

- ED02 – Gostyngiad o 10% yn y cyfraniad i EAS - £34,000.
- ED04 – Ffi Rheoli Arian Gwastad i Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin - £135,670.
- ED05 – Cyllideb Ysgolion – Arian gwastad/torri cyllideb Cyllideb Ysgolion Unigol – (ISB) - £1,051,000. Fodd bynnag, cytunwyd ar bwysau cost penodol yn gyfanswm o £864,000 (darpariaeth ADY, cynnydd yn nifer disgyblion a'r Ysgol Gymraeg newydd) a fyddai'n gyfwerth yn ymarferol â chynnydd o 1.6% i'r ISB ac a fyddai'n cael ei gyllido gan y Cyngor.
- ED06 – Adolygu Cyllidebau Staffio ac uchafu cyllid grant - £107,460.

- ENV01 – Diogelu'r Cyhoedd – Adolygu Strwythurau Staffio - £100,000.
- ENV09 – Gwastraff Masnach – Cynyddu prisiau Gwastraff Masnach i Fusnesau gan 5% - £2,220
- ENV11 – Gwasanaethau Gwastraff – Codi ffi weinyddol yn gysylltiedig â dosbarthu biniau gweddilliol a bagiau ailgylchu – gweithredid y cynnig hwn ar **sail treialu fel y medrid monitro a gwerthuso ei weithrediad -** £3,662.
- ENV12 – Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Aelwydydd – Adolygu dyddiau/oriau gweithredu . Gweithredid y cynnig hwn ar **sail treialu fel y medrid monitro a gwerthuso ei weithrediad** - £34,000.
- ENV15 – Adolygu Cyllideb Staffio – Gostwng cyllideb yn

gysylltiedig â swydd a gafodd ei dileu - £45,000.

- SS01 – Gwasanaethau Oedolion – Gwasanaeth Comisiynu Gofal Cymdeithasol a Chymorth Tai newydd - £57,000.
- SS02 – Gwasanaethau Oedolion Rhesymoli/Gostwng Lefelau Staffio - £113,000.
- SS04 – Gwasanaethau Oedolion – Gostwng pecynnau gofal yn y cartref drwy wella mesurau sicrwydd ansawdd - £250,000.
- SS05 – Gwasanaethau Darparydd – Gostyngiad mewn Opsiynau Cymunedol a Chludiant i'r Ganolfan Ddydd - £153,560.
- SS06 – Gwasanaethau Darparydd – Rhesymoli/Gostwng Lefelau Staffio - £110,000.
- SS07 – Gwasanaethau Plant – Gostwng Dros Dro y Lefelau Staffio yn y Tîm Lleoliad - £56,000.
- SS08 – Gwasanaethau Plant – Rhesymoli/Gostwng Lefelau Staffio yn y Tîm Blynyddoedd Cynnar - £110,000.
- SS11 – Gwasanaethau Plant – Rhesymoli/Gostwng Lefelau Staffio yn y Tîm Diogelu - £113,900.

**Na chytunir** ar y cynnig dilynol:

- ECON01 – Stadau – Adolygu Strwythurau Staffio – ni fyddid yn gweithredu ar y cynnig hwn ar hyn o bryd.

Yn ychwanegol at y cynigion uchod, cytunwyd i dynnu £1,494,000 o gronfeydd wrth gefn hefyd ar gyfer 2024/2025.

Daeth Arweinydd y Cyngor drwy ddweud, pe cytunir i'r cynigion uchod, y byddid yn cyflawni'r targed o **£8,336,000** o arbedion cyllideb.

Eiliwyd y cynigion uchod.

Dechreuodd Arweinydd y Grŵp Annibynnol drwy gadarnhau fod y Grŵp yn cefnogi mwyafrif y cynigion a amlinellwyd uchod gan Arweinydd y Cyngor ac mai dim ond ar dri o'r cynigion yr oeddent wedi gwahaniaethu.

Aeth yr Arweinydd Grŵp yn ei flaen i ddweud, oherwydd pryderon a godwyd yng nghyfarfod diweddar y Pwyllgor Craffu Corfforaethol a Pherfformiad ac mewn trafodaeth gyda'r Arweinydd, y cytunwyd er mwyn rhoi lefel o sicrwydd y byddid yn cytuno ar ddau o'r

achosion busnes yn seiliedig ar sail treialu, fel y gellid monitro, gwerthuso a rhoi adroddiad yn ôl i'r cyngor maes o law ar y cynigion, sef:

- ENV11 – Gwasanaethau Gwastraff – Codi ffi weinyddol yn gysylltiedig â dosbarthu biniau gweddilliol newydd yn lle a bagiau ailgylchu.
- ENV12 – Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref – adolygu dyddiau/oriau gweithredu.

Fodd bynnag, ni chytunodd y Grŵp Annibynnol gyda'r **cynnig am gynnydd yn y Dreth Gyngor a chynigiodd y diwygiad dilynol:**

- Cynnydd yn y Dreth Gyngor o 4.75%.

Byddai hyn yn cynyddu'r cronfeydd wrth gefn a dynnid.

Eiliwyd y cynnig hwn.

Gofynnwyd am bleidlais wedi ei chofnodi ar hynny.

**O blaid y cynnig diwygiedig i gynyddu'r Dreth Gyngor gan 4.75% -** Cynghorwyr G. A. Davies, M. Day, J. Hill, W. Hodgins, J. Holt, G. Humphreys, J. P. Morgan, L. Parsons, G. Thomas, J. Wilkins.

**Yn erbyn y cynnig diwygiedig i gynyddu'r Dreth Gyngor gan 4.75% -** Cynghorwyr S. Behr, D. Bevan, K. Chaplin, M. Cross, S. Edmunds, J. Gardner, R. Leadbeater, E. Jones, J. Morgan, J.P., J. C. Morgan, D. Rowberry, C. Smith, T. Smith, J. Thomas, S. Thomas, H. Trollope, D. Wilkshire, L. Winnett, D. Woods.

**Ni chariwyd y bleidlais ar y diwygiad.**

Nid oedd angen pleidlais lafar bellach yng nghyswllt y cynnig gwreiddiol i gynyddu'r Dreth Gyngor gan 4.95% ond cytunodd Aelodau i wrthdroi'r canlyniad o'r bleidlais ddechreuol a gymerwyd, a'i gynnwys yn y trafodaethau ar gyfer y cofnod.

**O blaid y cynnig i gynyddu'r Dreth Gyngor gan 4.95% -** Cynghorwyr S. Behr, D. Bevan, K. Chaplin, M. Cross, S. Edmunds, J. Gardner, R. Leadbeater, E. Jones, J. Morgan, J.P., J. C. Morgan, D. Rowberry, C. Smith, T. Smith, J. Thomas, S. Thomas, H. Trollope, D. Wilkshire, L. Winnett, D. Woods.

**Yn erbyn y cynnig i gynyddu'r Dreth Gyngor gan 4.95% -** Cynghorwyr G. A. Davies, M. Day, J. Hill, W. Hodgins, J. Holt, G. Humphreys, J. P. Morgan, L. Parsons, G. Thomas, J. Wilkins.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef:

- Cytuno ar gyllideb refeniw 2024/25 fel y'i dangosir yn y tabl ym mharagraff 5.1.15 yr adroddiad.

- Nodi'r deilliannau o fewn y Setliad Grant Cynnal Refeniw (RSG) gyffredinol ddarpariaethol a'r potensial am newid pellach yn y Setliad RSG terfynol (paragraffau 2.6 – 2.17 yr adroddiad).

- Nodi'r deilliannau o fewn Setliad RSG darpariaethol CBSBG a'i effaith ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canol (paragraffau 2.18 – 2.26 yr adroddiad).

- Cytuno ar y pwysau cost ac eitemau twf wedi eu diweddaru (cyfanswm o £2.8m) a ddynodir yn Atodiad 2 (paragraffau 5.1.10 – 5.1.16 yr adroddiad) i'w gynnwys yng nghyllideb y Cyngor.

- Cymeradwyo cynigion Pontio'r Bwlch yn sicrhau arbedion ariannol a thoriadau cyllideb tuag at y bwlch yn y gyllideb (paragraffau 5.1.25 i 5.1.37 yr adroddiad) **ac eithrio:**

  **ECON01 –** Stadau – Adolygu Strwythurau Staffio.

- Cytuno ar gyllideb arian gwastad ar gyfer y Gyllideb Ysgolion Unigol (ISB). Fodd bynnag, byddai pwysau cost yn gyfanswm o £864,000 (darpariaeth ADY, cynnydd yn nifer disgyblion a'r Ysgol Gymraeg newydd) yn cael eu cyllido gan y Cyngor, yn gyfwerth â chynnydd o 1.6%.

- Pasportio grant/iau yn trosglwyddo i'r Setliad Terfynol ar gyfer 2024/2025 i'r gwasanaeth/au perthnasol.

- Cymeradwyo defnyddio cronfeydd wrth gefn yn gyfanswm o £1.494m i gael cyllideb gytbwys ar gyfer 2024/2025.

- Cytunwyd ar gynnydd o 4.95% yn y dreth gyngor ar gyfer

| | | |
|---|---|---|
| | 2024/25.<br><br>➢ Cymeradwyo'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol wedi ei diweddaru ar gyfer 20289/209 a roddir yn Atodiad 5. | |